

Monitro Cydraddoldeb 2014/15 i 2016/17

**Dadansoddiad o nodweddion
staff a myfyrwyr
mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru
ar gyfer blynyddoedd academiaidd
2014/15 i 2016/17**

Oni nodir fel arall, mae'r holl gymariaethau ar gyfer myfyrwyr neu staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru (DAU) ar gyfer y cyfnod 2014/15 i 2016/17.

Mae'r poblogaethau o fyfyrwyr a staff sydd wedi cael eu defnyddio yn y dadansoddiad hwn wedi cael eu hadolygu yn unol â'r data a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â data a gyhoeddwyd yn flaenorol gan CCAUC.

Nid yw data ar gyfer staff anacademaidd ar gontractau annodweddiadol yn cael eu casglu bellach ers 2015/16 ymlaen ac felly maent wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad hwn. Mae hyn yn golygu bod y data ar gyfer staff academaidd ar gontractau annodweddiadol a heb fod yn annodweddiadol a data ar gyfer staff anacademaidd ar gontractau heb fod yn annodweddiadol wedi'u cynnwys yn y data am y staff 'i gyd' yn unig.

Mae data ar gyfer myfyrwyr mewn darpariaeth addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol gan CCAUC mewn sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru wedi'u cynnwys yng nghofnod myfyrwyr HESA am y tro cyntaf yn 2016/17. Er nad oes data cyfatebol ar gael ar gyfer blynyddoedd cynharach, mae data 2016/17 wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Mae'r data'n cyfateb i 1,400 o gofrestrïadau yn SABau Cymru ac nid yw cynnwys y data am flwyddyn yn unig yn cael effaith sylfaenol ar unrhyw gasgliadau a lunnir.

Monitro Oedran

Myfyrwyr

- Yn gyffredinol, roedd gostyngiad o 2.7% yng nghyfanswm y myfyrwyr yn ystod y cyfnod. Y rheswm dros y gostyngiad hwn oedd oherwydd gostyngiad mawr yn y rhai 25 i 29 oed (-10.2%) a'r rhai 30 oed a hŷn (-11.0%). Roedd cynnydd o 8.3% yn y rhai 18 oed ac iau a chynnydd bychan (llai na 1.5%) mewn grwpiau oedran eraill. Yn DAU y DU yn gyffredinol, roedd cynnydd o 2.3% yn y myfyrwyr yn ystod y cyfnod, gyda chynnydd yn yr holl grwpiau oedran dan 25 oed (rhwng 3.7% a 6.4%) a gostyngiad yn y rhai 25 oed a hŷn. Y grŵp oedran 30 a hŷn brofodd y gostyngiad mwyaf mewn canran yn DAU Cymru a'r DU - yng Nghymru -11.0% ac yn y DU -5.1%.
- Er bod nifer y myfyrwyr gydag oedran anhysbys wedi cynyddu yng Nghymru, mae'r nifer yn parhau ar lefel isel iawn drwy gydol y cyfnod.

Staff

- Roedd cynnydd yn yr holl grwpiau oedran o staff **academaidd**, gyda'r grwpiau oedran 39 oed ac iau a 65 a hŷn yn gweld cynnydd o fwy na 10%, gyda'r cynnydd canran mwyaf o 45% yn y grŵp oedran 24 oed ac iau. Y grŵp oedran gyda'r cynnydd canran lleiaf o 1.5% oedd y grŵp oedran 45 i 49 oed.

- Hefyd roedd cynnydd yn yr holl grwpiau oedran ar gyfer y staff i gyd, gyda'r grwpiau oedran 24 ac iau a 65 a hŷn yn gweld cynnydd o fwy na 10%. Roedd y cynnydd canran mwyaf o 21% yn y grŵp oedran 24 oed ac iau. Y grwpiau oedran 40 i 44 a 45 i 49 brofodd y cynnydd canran lleiaf - 1.7% ac 1.6% yn eu trefn.
- Ar gyfer staff **academaidd** ar gontractau **heb fod yn annodweddiadol**, roedd gostyngiad mewn pedwar grŵp oedran, gyda'r grwpiau 24 oed ac iau a 25 i 29 oed yn gweld y gostyngiad mwyaf o ran canran, 47% a 18% yn eu trefn. Roedd cynnydd (o 5.1% neu is) yn y pum grŵp oedran a fawr ddim newid yn y grŵp oedran 65 a hŷn. Ar gyfer yr **holl** staff ar gontractau **heb fod yn annodweddiadol**, roedd gostyngiadau mewn chwe grŵp oedran gyda'r grwpiau 24 ac iau a 25 i 29 yn profi'r gostyngiadau canran mwyaf, sef 8.5% ac 8.8% yn eu trefn.
- Ar gyfer staff academaidd ar gontractau annodweddiadol, roedd cynnydd canran mawr iawn ym mhob grŵp oedran, yn amrywio rhwng 59% a 156%, gan arwain at gynnydd cyffredinol o 104%. Y cynnydd yma'n bennaf sy'n effeithio ar y ffigurau ar gyfer yr holl staff academaidd a'r holl staff a amlinellir uchod.

Monitro Anabledd

Myfyrwyr

- Yn 2016/17, roedd 16,830 o fyfyrwyr anabl yn astudio yn DAU Cymru (13.0% o'r holl fyfyrwyr). Ychydig dros ddwy ran o bump o'r rhai sydd ag anabledd anabledd dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu anhwylder diffyg canolbwytio (gorfywiogrwydd).
- Bu cynnydd gan 54% yn nifer y myfyrwyr a wnaeth ddatgan bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl fel iselder, sgitsoffrenia neu anhwylder gorbryder, a bu cynnydd gan 43% yn nifer y myfyrwyr a wnaeth ddatgan bod ganddynt nam cymdeithasol/cyfathrebu fel syndrom Asperger neu anhwylder arall ar y sbectrwm awtistig.
- Cynyddodd nifer y myfyrwyr anabl sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) 3.8%, a chynyddodd y nifer ddim yn derbyn DSA 40%, gyda gostyngiad o 70% (o 1,420 i 430) yn y nifer gyda'r wybodaeth am DSA yn anhysbys. Cynyddodd nifer y myfyrwyr oedd yn datgan eu bod yn anabl 13.3%.
- Mae cyfran y myfyrwyr anabl sy'n hawlio Lwfans i Fyfyrwyr Anabl mewn DAU yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na'r gyfran yn DAU y DU yn gyffredinol.

Staff

- Gostyngodd cyfran y staff **academaidd** oedd yn datgan eu hunain fel staff anabl o 4.8% i 4.5% ond cynyddodd y nifer o 530 i 565, gan fod nifer y staff yn gyffredinol wedi cynyddu ar gyfradd uwch.
- Yn yr un modd, gostyngodd cyfran yr holl staff oedd yn datgan eu hunain fel staff anabl o 5.7% i 5.4% ond cynyddodd y nifer o 1,205 i 1,245.
- Nifer y staff academaidd ar gontractau heb fod yn annodweddiadol oedd yn datgan eu hunain fel staff anabl oedd 430 ar ddechrau a diwedd y cyfnod, ond gostyngodd i 400 yn 2015/16. Yn yr un modd, roedd nifer yr **holl** staff ar gontractau **heb fod yn annodweddiadol** oedd yn datgan eu hunain fel staff anabl tua'r un nifer ar ddechrau a diwedd y cyfnod (1,105 a 1,110 yn eu trefn) ond gostyngodd i 1,075 yn 2015/16.
- Cynyddodd nifer y staff **academaidd** ar gontractau **annodweddiadol** oedd yn datgan eu hunain fel staff anabl 38% o 100 i 135 a chynyddodd y rhai heb unrhyw anabledd hysbys fwy na 100% o 1,210 i 2,560.
- Y ddau anabledd mwyaf cyffredin sydd wedi'u datgan gan y staff (**academaidd** a'r **holl** staff) yw salwch neu gyflwr iechyd tymor hir neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Yn 2016/17, bu i chwarter y staff **academaidd** anabl ddatgan anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D a bu i bron i chwarter ddatgan salwch neu gyflwr iechyd tymor hir. Bu i chwarter yr **holl** staff anabl ddatgan salwch neu gyflwr iechyd tymor hir a bu i ddwy ran o bump ddatgan anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D.
- Cynyddodd nifer y staff a wrthododd roi gwybodaeth am anabledd 36%, o 800 i 510, ar gyfer y staff **academaidd** a 31%, o 1,395 i 960, ar gyfer yr **holl** staff.
- Cynyddodd nifer y staff a wrthododd roi gwybodaeth am anabledd 41% ar gyfer y staff **academaidd** ar gontractau heb fod yn **annodweddiadol** a 34% ar gyfer yr **holl** staff ar gontractau heb fod yn **annodweddiadol**.
- Ar gyfer staff **academaidd** ar gontractau **annodweddiadol**, roedd cynnydd o 50% yn y niferoedd a wrthododd roi gwybodaeth am anabledd, er bod y niferoedd yn isel (cynnydd o 45 i 70).

Monitro Ethnigrwydd

Myfyrwyr

- Roedd cynnydd yn nifer y myfyrwyr ym mhob grŵp lleiafrifoedd ethnig ar wahân i grwpiau Tsieineaidd (2.8% gostyngiad) a Gwyn (1.8% gostyngiad). Y grwpiau a welodd y cynnydd cyfrannol mwyaf yn nifer y myfyrwyr oedd

Bangladeshaidd (63%), Du Caribiaidd (24%) Asiaidd Arall (24%), , a Arall (19%).

- Gostyngodd nifer y myfyrwyr a wrthododd roi gwybodaeth am ethnigrwydd 21% (o 2,255 i 1,790) a chynyddodd nifer y myfyrwyr gyda gwybodaeth anhysbys am ethnigrwydd 39% (o 470 i 650). Yn 2016/17, cyfran y myfyrwyr a wrthododd roi gwybodaeth am ethnigrwydd oedd 1.7% a'r gyfran gyda gwybodaeth anhysbys oedd 0.6%.
- Yn 2016/17, roedd cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o bob cefndir lleiafrif ethnig (ac eithrio Gwyn a Tsieineaidd) yn DAU au Cymru a oedd yn fwy na neu'n gyfartal â'r cyfrannau ym mhoblogaeth Cyfrifiad Cymru. Roedd cyfran y myfyrwyr sy'n byw yn y DU o bob cefndir lleiafrif ethnig (ac eithrio Gwyn, Cymysg a Bangladeshaidd) yn DAUau Cymru yn is na'r cyfrannau ym mhoblogaeth cyfrifiad y DU.
- Yn 2016/17, mae cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU o gefndiroedd lleiafrif ethnig gyda'i gilydd yn uwch na phoblogaeth bwysedig cyfrifiad y myfyrwyr yn y DU.

Staff

- Yn 2016/17, roedd cyfran yr **holl** staff a'r staff **academaidd** o bob cefndir lleiafrif ethnig yn is na phob un o'r cyfrannau hyn ym mhoblogaeth cyfrifiad y DU, ac eithrio Tsieineaidd a chefndiroedd lleiafrif ethnig eraill.
- Yn 2016/17, roedd cyfran yr **holl** staff o bob cefndir lleiafrif ethnig yn gyfartal neu'n fwy na phob un o'r cyfrannau hyn ym mhoblogaeth cyfrifiad Cymru, ac eithrio ar gyfer Bangladeshaidd a Grwpiau lleiafrif ethnig cymysg. Hefyd roedd cyfran y staff **academaidd** o bob cefndir lleiafrif ethnig yn gyfartal neu'n fwy na phoblogaeth cyfrifiad Cymru, ac eithrio ar gyfer y grŵp Bangladeshaidd.

Monitro Rhyw

Myfyrwyr

- Roedd y gyfran o ymgeiswyr benywaidd yn DAU y DU a myfyrwyr benywaidd yn DAU Cymru a'r DU yn fwy na'r gyfran o ferched ym mhoblogaeth y cyfrifiad sy'n 16 oed a hŷn.

Staff

- Yn ystod y cyfnod, roedd gan yr **holl** staff benywaidd yn DAUau Cymru gynrychiolaeth uwch na'r benywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad oedd yn 16 oed a hŷn ac yn economaidd weithgar.
- Yn 2014/15, roedd cyfran y staff **academaidd** benywaidd ychydig yn is na chyfran y benywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad, ond yn ystod y ddwy flynedd ganlynol, roedd y gyfran ychydig yn uwch na chyfran y boblogaeth.
- Yn 2016/17, roedd 52.9% o'r staff **academaidd** yn wrywaidd ond dim ond 46.0% o'r **holl** staff yn wrywaidd.
- Yn ystod y cyfnod, roedd gan gyfran yr **holl** staff ar gontractau **heb fod yn annodweddiadol** oedd yn fenywod gynrychiolaeth uwch na'r benywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad, ac roedd cyfran y staff **academaidd** benywaidd ar **gontractau heb fod yn annodweddiadol** yn is na phoblogaeth y cyfrifiad. Fodd bynnag, cynyddodd y gyfran hon bob blwyddyn ac, yn 2016/17, mae 0.3 pwynt canran yn is na chyfran y boblogaeth.
- Roedd cyfran y staff **academaidd** ar gontractau **annodweddiadol** oedd yn wrywaidd yn is na chyfran y gwrywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad.

Nodiadau Technegol

Poblogaeth

Mae'r myfyrwyr oedd wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth gofrestru safonol HESA¹ a'r staff oedd wedi'u cynnwys naill ai ym mhoblogaeth contract staff 1 Rhagfyr² neu'r staff academaidd oedd wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth annodweddiadol y staff wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Mae defnyddio'r poblogaethau hyn yn galluogi i'r dadansoddiad hwn fod yn gyson â dadansoddiadau eraill sydd wedi'u cyhoeddi gan HESA.

Mae data'r boblogaeth wedi cael ei gynnwys o gyfrifiad 2011.

Myfyrwyr

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys cofrestriadau myfyrwyr unigol, a ddychwelwyd ar gofnod myfyrwyr HESA ac sy'n cael eu cyfrif ym mhoblogaeth gofrestru'r myfyrwyr.

Ar gyfer y dadansoddiadau o fyfyrwyr yn ôl oedran, rhywedd ac anabledd, mae'r boblogaeth yn cynnwys yr holl fyfyrwyr o'r fath yn DAU Cymru a DAU y DU.

Ar gyfer y dadansoddiad o ethnigrwydd myfyrwyr, dim ond myfyrwyr sy'n byw yn y DU yn DAU Cymru sydd wedi'u cynnwys. Mae myfyrwyr sy'n byw yn y DU wedi cael eu dewis ar gyfer y dadansoddiad o ethnigrwydd myfyrwyr am nad yw cofnodi ethnigrwydd yn orfodol ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn y DU.

Anhysbys - Diffiniadau HESA

Staff

- Ethnigrwydd yn anhysbys – defnyddir ar gyfer staff lle nad yw'r ethnigrwydd yn hysbys, gellir ei ddefnyddio i staff nad ydynt yn gwybod eu hethnigrwydd, e.e. staff sydd wedi cael eu mabwysiadu.
- Ethingrwydd wedi'i wrthod - defnyddir ar gyfer staff a wnaeth wrthod ddarparu'r wybodaeth.
- Gwybodaeth am anabledd – os nad ydym yn gwybod a oes gan aelod o staff anabledd, maent wedi'u cofnodi fel 'dim anabledd hysbys', a dim ond ar gyfer staff sydd wedi gwrthod rhoi gwybodaeth yr ydym wedi defnyddio 'wedi gwrthod rhoi gwybodaeth am anabledd'.
- Oedran yn anhysbys - pob achos lle mae'r dyddiad geni ar goll, neu pan fydd y dyddiad geni yn golygu mai'r oedran a gyfrifir yw 0.

¹ <https://www.hesa.ac.uk/support/definitions/students#standard-registration-population>

² <https://www.hesa.ac.uk/support/definitions/staff#staff-coverage>

Myfyrwyr

- Ethnigrwydd wedi'i wrthod - ddefnyddio pan mae myfyriwr wedi gwrthod yn glir i ddarparu'r wybodaeth.
- Ethnigrwydd yn anhysbys - defnyddio'r maes hwn pan nad yw myfyriwr wir yn gwybod ei ethnigrwydd, er enghraifft unigolion a fabwysiadwyd.
- Lwfans Myfyriwr Anabl ddim yn hysbys/heb ei ganfod - yn cynnwys achosion lle mae gan y myfyriwr anabledd ond nad yw'n hysbys a yw'n derbyn Lwfans Myfyriwr Anabl ai peidio
- Oedran yn anhysbys - pob achos lle mae'r dyddiad geni ar goll, neu pan fydd y dyddiad geni yn golygu mai'r oedran a gyfrifir yw 0.

Anabledd

Ers 1996, ni fu unrhyw gofrestrriad mewn perthynas ag anabledd. Caiff anabledd ei gofnodi ar sail hunanasesiad yr aelod o staff neu'r myfyriwr.

Mae'r myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl yn dod o'r DU yn unig.

Oedran

Oedran yw oedran y myfyriwr neu'r aelod o staff ar 31^{ain} Awst o fewn y flwyddyn academaidd.

Yn byw yn y DU

At ddibenion y dadansoddiad o ethnigrwydd myfyrwyr, mae myfyrwyr sy'n byw yn y DU yn cael eu cyfrif fel myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Polisi rheoli datgelu data

Mae gweithdrefn rheoli datgelu data³ safonol CCAUC wedi cael ei rhoi ar waith. Mae hyn yn golygu'r canlynol:

- Mae'r niferoedd i gyd wedi cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr i'r lluosrif agosaf o 5. Mae unrhyw nifer is na 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 0. Mae haneri'n cael eu talgrynnu i fyny (e.e. 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 5).
- Cyfrifir canrannau ar sail data heb eu talgrynnu. Mae canrannau a gyfrifir am boblogaethau sy'n cynnwys llai na 22.5 o unigolion yn cael eu hatal neu eu cynrychioli fel ".".

³ https://www.hefcw.ac.uk/about_us/internal_policies/data_disclosure_control_cy.aspx

- Mae'r cyfansymiau'n swm wedi'i dalgrynnu o ddata heb eu talgrynnu ac efallai nad ydynt yn cyfateb i swm y data wedi'u talgrynnu a ddangosir.

Diffinio annodweddiadol

Nodwyd y diffiniad o 'annodweddiadol' yn Yr Adran Masnach a Diwydiant:

'Defnyddir y term 'annodweddiadol' i ddisgrifio trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys cydberthnasau cymhleth a/neu sy'n cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol. Gall gradd o hyblygrwydd ar gyfer y darparwr gwaith a'r gweithiwr fod yn nodweddion o hyn, a gallant gynnwys cydberthynas drionglog sy'n cynnwys asiant.'

Ffynhonnell: Dogfen Drafodaeth yr Adran Fasnach a Diwydiant ar Statws Cyflogaeth, Gorffennaf 2003, paragraff 23.

Yn ogystal â'r diffiniad hwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant, lluniwyd canllaw penodol gan AU. Mae contractau annodweddiadol yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol:

- Maent yn para llai na phedair wythnos yn olynol - sy'n golygu nad oes angen datganiad o delerau ac amodau.
- Maent ar gyfer tasgau un tro/tymor byr - er enghraifft, ateb y ffôn yn ystod y cyfnod clirio, cynnal arddangosfa, trefnu cynhadledd. Nid oes rhwymedigaeth gilyddol rhwng y darparwr a'r gweithiwr y tu hwnt i gyfnod y gwaith neu'r prosiect. Mewn rhai achosion telir ffi sefydlog ar gyfer y darn o waith nad yw'n gysylltiedig â'r oriau / amser a dreuliwyd.
- Maent yn cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol - ond nid fel rhan o gynlluniau cwmnïau addysgu na goruchwyliaeth addysgu ac ymchwil sy'n gysylltiedig â darparu addysg dysgu o bell.
- Maent yn cynnwys cryn dipyn o hyblygrwydd, mewn contract yn aml, i weithio ar sail 'fel bo'r angen' - er enghraifft, arlwygo ar gyfer cynadleddau, cenhadon myfyrwyr, arddangoswyr.